Academic & Student Support Services
Academic Registrar Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrydd Academaidd Simon Wright LLB

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE

Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE

Anfonwyd drwy ebost at g.wynne@tsd.ac.uk **27 Mawrth 2017**

Annwyl Mr Wynne,

Parthed: Ymateb y Sefydliad: Adroddiadau Arholwr Allanol 2014-2015 a 2015-2016

Ysgrifennaf atoch ymhellach ar ôl cael eich Adroddiadau Arholwr Allanol yn ddiweddar ar gyfer yr Athro mewn Ymarfer Addysgol.

Yn unol â'n harfer safonol, anfonir copi o'r Adroddiadau at yr Ysgol dan sylw, a fydd yn defnyddio'r cynnwys i helpu i lywio ei phroses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol. Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. **eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;**
2. **cyfleoedd a gynigir i fyfyrwyr yn y rhaglen i ddatblygu yng nghyd-destun eu sefyllfa addysgol unigryw eu hunain;**
3. **cyfuniad o waith ymarferol a phroffesiynol a'r ymchwil a gynhelir ar hyn o bryd ym maes addysg;**
4. **proses asesu dryloyw;**
5. **perthynas effeithiol rhwng yr holl randdeiliaid;**
6. **rhoddir adborth ysgrifenedig defnyddiol a deunydd cynorthwyol i fyfyrwyr.**

Ymddengys nad yw eich adroddiadau yn codi unrhyw faterion penodol y mae angen ymateb iddynt yn fwy manwl. Yn unol â hynny, nid yw'r Ysgol wedi gofyn am gael ymateb yn ffurfiol i'r Adroddiadau.

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhaglen.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiadau Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a byddant ar gael yn gyhoeddus.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Mr Simon Wright
Cofrestrydd Academaidd

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk